Y BUSNES O AILGYLCHU CYMRU THE BUSINESS OF RECYCLING WALES WRAP CYMRU

Astudiaeth achos Ailgylchu yn y Gweithle: prifysgol

# Prifysgol Aberystwyth

## Cefndir

Mae Prifysgol Aberystwyth ar arfordir gorllewinol Cymru yn gartref i dros 2,000 o staff a 6,000 o fyfyrwyr o bob cwr o'r byd. Mae prif Gampws Penglais yn cynnwys amrywiaeth eang o gyfleusterau, gan gynnwys adeiladau academaidd, allfeydd lletygarwch, cyfleusterau chwaraeon a llety myfyrwyr. Roedd Aberystwyth yn un o brifysgolion cyntaf y Deyrnas Unedig i ddatgan argyfwng hinsawdd ac mae wedi gosod uchelgais i ddod yn gampws carbon niwtral erbyn 2030.



Darlun: Campws Prifysgol Aberystwyth

# Ymateb i'r gyfraith ailgylchu yn y gweithle

Mae'r brifysgol yn gweithio'n galed fel rhan o'i hymrwymiad i hierarchaeth gwastraff i Atal, Lleihau ac Ailddefnyddio deunyddiau cyn i eitemau gael eu dosbarthu fel gwastraff.

Mae'r brifysgol yn wynebu amrywiaeth o heriau cymhleth sy'n gysylltiedig â gwastraff. Gall natur y gwastraff a gynhyrchir ar yr ystâd amrywio o ran math a chyfaint drwy gydol y flwyddyn, yn dibynnu ar y gweithgareddau amrywiol sy'n digwydd ar draws ei champysau, gan gynnwys dyfodiad ac ymadawiad sawl mil o fyfyrwyr.

Mae addysgu'r myfyrwyr, y staff a'r gymuned ymwelwyr ehangach ar drefniadau gwastraff ac ailgylchu yn galw am ddarparu negeseuon clir a chymhwyso seilwaith yn gyson ar draws ystâd y brifysgol.

Mae'r Brifysgol wedi gweithredu'r casgliadau ailgylchu ar wahân gofynnol ym mhob rhan o'r campws.

Mae hyn yn cynnwys blociau llety myfyrwyr, nad oes gofyniad cyfreithiol iddynt ddilyn y gofynion gwahanu.

Roedd y penderfyniad hwn i fynd 'y tu hwnt i'r gofynion cyfreithiol gofynnol oherwydd awydd i ddarparu profiad ailgylchu cyson ar draws y campws cyfan.



Y BUSNES O AILGYLCHU CYMRU THE BUSINESS OF RECYCLING WALES

WRAP CYMRU

# Rhoi ailgylchu yn y gweithle ar waith

Mae'r brifysgol yn gweithio gyda nifer o bartneriaid gwastraff i gefnogi casglu gwastraff o'r safle, gyda ffrydiau gwastraff yn cynnwys y pedair ffrwd sy'n ofynnol gan y gyfraith:

- Papur a cherdyn
- Plastig, metelau a chartonau
- Bwyd
- Gwydr

Yn ogystal â:

- Gwastraff cyffredinol
- Batris domestig
- Gwastraff cyfrinachol
- Gwastraff budr
- WEEE
- Tecstilau

Yn ystod camau o roi rheoliadau ailgylchu yn y gweithle ar waith, ceisiodd y brifysgol leihau costau drwy ailddefnyddio biniau lle bynnag y bo modd, e.e. drwy ailosod ac alinio lliwiau caeadau ac arwyddion. Fodd bynnag, mae lefel gyffredinol y buddsoddiad mewn biniau newydd ac uwchraddio i rai presennol i ddarparu ailgylchu ar wahân ar gyfer pob ffrydiau deunydd wedi bod yn sylweddol.



Y BUSNES O AILGYLCHU CYMRU THE BUSINESS OF RECYCLING WALES WRAP CYMRU

# Gwasanaethau arlwyo: gwahanu gwastraff bwyd

Mae nifer o leoliadau arlwyo yn cael eu rhedeg gan dîm mewnol ar draws y campws. Mae hyn yn cynnwys neuaddau bwyd a chaffis, a hefyd neuadd breswyl sy'n darparu arlwyo. Mae gwahanol ddulliau'n cael eu hasesu i gasglu gwastraff bwyd, gan gynnwys lleoliad biniau gwastraff bwyd mewn mannau lle mae bwyd yn cael ei fwyta a thrwy drefniadau 'cefn y tŷ' lle mae gwastraff platiau sy'n cael ei adael ar hambyrddau yn cael ei wahanu gan staff. Mae'r gwastraff platiau hwn yn cael ei gyfuno â gwastraff paratoi bwyd a'i gyflwyno i'w gasglu ar wahân mewn biniau 240l.








# Darparu profiad ailgylchu cyson

Mae biniau a chynlluniau lliw cyson wedi'u lleoli ar draws y campws. Mae biniau 85-100l wedi'u lleoli mewn cynteddau mewnol ac ardaloedd cymunedol. Arferai'r rhain dargedu gwastraff cyffredinol (caeadau du) ac ailgylchu cymysg (caeadau gwyrdd) ond maent bellach wedi'u hailddefnyddio i gynnwys caeadau coch a glas sy'n targedu plastig, metel a chartonau, a phapur a cherdyn yn y drefn honno.

Mae codau QR wedi'u cynnwys ar finiau sy'n mynd â defnyddwyr i dudalennau gwybodaeth am ailgylchu - [Gwastraff: Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd, Prifysgol Aberystwyth]

Mabwysiadir dull tebyg y tu allan, gyda biniau deuol 100l yn mabwysiadu agoriadau a labeli lliw cyson. Mewn llawer o leoliadau, darperir mannau casglu ar wahân ar gyfer batris a fêps. Bydd biniau etifeddol heb y 'safon ddylunio' a fabwysiadwyd yn cael eu disodli dros amser.




Y BUSNES O AILGYLCHU CYMRU | THE BUSINESS OF RECYCLING WALES | WRAP CYMRU

# Ailgylchu mewn blociau llety myfyrwyr

- Mae tua 50% o holl fyfyrwyr llawn amser yn Aberystwyth yn byw mewn llety a reolir gan y brifysgol.  Mae gan gampws Penglais dros 3,200 o ystafelloedd gwely astudio ar draws amrywiaeth eang o flociau llety.
- Mae 550 o fflatiau unigol ar draws yr ystâd, sydd fel arfer yn cynnwys 6-8 ystafell fesul fflat.
- Er bod oedran a chynllun gwahanol flociau myfyrwyr yn amrywio, mae'r brifysgol wedi rhoi trefniadau ailgylchu cyson ar waith ym mhob un ohonynt.
- Darperir pum cynhwysydd o fewn y gegin / ardal gymunedol ym mhob fflat, yn targedu papur a cherdyn, metelau, plastig a chartonau, gwydr, gwastraff bwyd a gwastraff cyffredinol.
- Mae myfyrwyr yn gyfrifol am fynd â bagiau gwastraff i lecynnau gwastraff allanol sydd ar gael 24/7.
- Mae arwyddion clir wedi'u darparu o fewn y llecynnau hyn sy'n cael eu gwirio'n ddyddiol.



# Monitro

- Mae casgliadau gwastraff ac ailgylchu yn digwydd ar draws y campws sawl gwaith y dydd drwy gydol yr wythnos, ac mae cadw golwg ar heriau neu broblemau yn hanfodol
- Mae'r tîm Cyfleusterau yn cynnal gwiriadau dyddiol ar lecynnau gwastraff, gan sicrhau bod unrhyw broblemau ynghylch gwahanu gwastraff a defnyddio cynwysyddion yn gywir yn cael eu datrys yn gyflym.
- Darperir gwybodaeth ymarferol i staff ar yr hyn y dylid ei gynnwys ym mhob ffrwd drwy wybodaeth sydd wedi'i hargraffu ar gefn bathodynnau adnabod, sy'n golygu bod yr wybodaeth hon wrth law bob amser.
- Yn ogystal â monitro ar lawr gwlad, adolygir pwysau unigol biniau a godir o wahanol rannau o'r ystâd. Mae hyn wedi helpu i nodi ardaloedd, e.e. blociau myfyrwyr, lle mae angen targedu gwahanu gwastraff bwyd er mwyn gwella. Mae hefyd yn helpu i lywio mentrau parhaus i optimeiddio niferoedd biniau a'u lleoliad o amgylch y campws.





# Mentrau cyfredol

- Mae'r brifysgol yn ymgorffori meini prawf cynaliadwyedd fel rhan o benderfyniadau prynu. Mae hyn yn ceisio lleihau gwastraff, gan gynnwys plastig ac annog cyflenwyr i ddychwelyd nwyddau, e.e. ar gyfer pecynnu mawr fel drymiau 5l.
- Mae'r brifysgol hefyd yn cefnogi mentrau sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr i helpu i leihau'r meintiau sylweddol o wastraff a gynhyrchir ar ddiwedd y tymor a'r flwyddyn academaidd. Mae hyn yn cynnwys darparu cyfleusterau cyfrannu ar gyfer eitemau defnyddiadwy i'w gadael ar ôl, ac yna cânt eu hailddefnyddio gan y myfyrwyr nesaf neu eu rhoi i elusennau lleol.
- Mae'r brifysgol yn gweithio'n rheolaidd gyda phartneriaid gwastraff i archwilio gwastraff a gesglir o'i hystâd, gan gynnwys mynychu ymweliadau 'dyletswydd gofal' â'r gweithfeydd gwastraff sy'n derbyn gwastraff y brifysgol. Mae hyn wedi caniatáu i'r brifysgol weld yn uniongyrchol sut mae gwastraff o'i hystâd yn cael ei ddidoli ar gyfer ailgylchu, a sut mae unrhyw ddeunyddiau na ellir eu hailgylchu yn cael eu defnyddio i greu ynni. Yn ogystal, mae'r brifysgol wedi dechrau cwblhau dadansoddiad rheolaidd o'i gwastraff cyffredinol i fonitro lefelau'r gwastraff y gellid ei ailgylchu ond sy'n cael ei roi mewn biniau gwastraff cyffredinol. Bydd hyn yn helpu i oleuo eu dull o ymdrin â seilwaith gwastraff a chyfathrebu â myfyrwyr wrth waredu eu gwastraff.

Y BUSNES O AILGYLCHU CYMRU
THE BUSINESS OF RECYCLING WALES
WRAP CYMRU

# Chwaraewch eich rhan mewn ffordd gylchol o fyw

I gael rhagor o wybodaeth a chymorth ar y Gyfraith Ailgylchu yn y Gweithle, anfonwch e-bost atom CymruYnAilgylchu@wrap.org.uk

Y Busnes o Ailgylchu